# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## SJR(2)-16-06(p.8)

### Rhaglen Waith Ddraft Ar Gyfer Tymor Y Gwanwyn 2007

#### Diben

Gwahodd y Pwyllgor i roi sylwadau a chytuno ar raglen waith arfaethedig tymor y gwanwyn 2007 (Atodiad).

#### Cefndir

Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglen waith dreigl dros gyfnodau o ddeuddeng mis o leiaf. Lluniwyd y rhaglen ar awgrymiadau gan yr Aelodau, pwyntiau gweithredu ac eitemau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

#### Trafodaeth

Pleidleisiodd y Cyfarfod Llawn dros dderbyn y strwythur diwygiedig sef bod y pwyllgorau'n cyfarfod bob pythefnos heb slotiau ychwanegol o fis Ionawr 2006. Rydym wedi darparu'r rhaglen ddrafft ar y sail y bydd y Gweinidog yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig yn ystod pob yn ail gyfarfod ynghyd â dod ag unrhyw bapurau'r Llywodraeth yn ôl ei dymuniad, ac rydym wedi amserlennu gwaith adolygu polisi a chyflwyniadau ar gyfer y cyfarfodydd eraill.

Mae'r rhaglen ddrafft yn cynnwys digon o le ar gyfer cyflwyniadau gan sefydliadau y mynegodd Aelodau ddiddordeb ynddynt ac ystyriwyd angen y Gweinidog am hysbysu, ymgynghori a derbyn barn y Pwyllgor ar rai pynciau.

Dywedodd y Cadeirydd y bydd y Pwyllgor yn cyfarfod y tu allan i Fae Caerdydd y tymor hwn ac y caiff y cyfarfod ar 15 Chwefror 2007 ei gynnal yn swyddfeydd newydd y Cynulliad Cenedlaethol ym Merthyr Tudful. Ar ôl cinio, cynigir fod y Pwyllgor yn derbyn y gwahoddiad mae wedi'i gael i ymweld â Llwybrau Newydd sydd hefyd wedi'i leoli ym Merthyr Tudful.

Gwahoddir sylwadau gan y Pwyllgor ar y rhaglen waith ddrafft ar gyfer tymor y gwanwyn a gofynnir iddynt nodi unrhyw eitemau ychwanegol yr hoffent eu cynnwys.

Cylchredir copïau o'r Flaenraglen Waith gytûn Gadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc yn unol â rheol Sefydlog 9.9.

Cam i'w gymryd

**9. Cytuno ar y Flaenraglen Waith ar gyfer tymor y gwanwyn 2007.**

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Tachwedd 2006